**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8960
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) gan Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ar 14 Hydref 2013. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynnu y dylai'r Bil gael ei gynnwys yng nghylch gwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac wedi cytuno y gellir hepgor trafodion yng Nghyfnod 1.

Roedd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn bresennol yn y Pwyllgor Cyllid ar 17 Hydref 2013 i alluogi Aelodau'r Pwyllgor i'w holi ynghylch agweddau ariannol ar y Bil.

### Ein Barn

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r bwriad a geir yn y Bil i alluogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau dull cyson o ran cael gwared ar yr effeithiau y mae pori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod yn ddiymgeledd yn eu cael ar dirfeddianwyr a chymunedau ledled Cymru. Fel Pwyllgor, rydym hefyd yn gobeithio y bydd y Bil yn annog perchenogion diegwyddor ceffylau yng Nghymru i newid eu hymddygiad, ac, yn y pen draw, yn gwella lles ceffylau a gaiff eu gadael yn ddiymgeledd. I'r perwyl hwnnw, rydym yn falch o glywed bod costau milfeddygol wedi'u cynnwys yn Rhan 4 (1) o'r Bil - Costau ymafael etc.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y gellid bod wedi atgyfnerthu'r Bil, pe bai'r broses yng Nghyfnod 1 wedi mynd rhagddo, drwy ystyried tystiolaeth gan yr heddlu, elusennau anifeiliaid, milfeddygon a'r cyhoedd.

Fel Pwyllgor, gallem fod wedi ystyried y costau a'r buddion ehangach a allai ddod yn sgîl y Bil, ac rydym yn glynu wrth y sylwadau a wnaed gennym yn y Pwyllgor nad yw'n arfer da deddfu ar frys.

**Argymhelliad**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir nifer y ceffylau y disgwylir iddynt gael eu difa yn y flwyddyn gyntaf a'r blynyddoedd dilynol.**

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

*17 Hydref 2013*

| | |
|---|---|
| Alun Davies AC | Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd |
| Julia Hill | Llywodraeth Cymru |
| Fiona Leadbitter | Llywodraeth Cymru |